

SA/16

Polisi Diogelu Data

“Mae ein polisïau’n sefydlu ein diwylliant, yn pennu ffiniau ac yn amlinellu ein disgwyladau o ran gweithredu. Maent wedi’u cytuno gan ein Bwrdd (Byrddau) fel dogfennau arfer gorau ar gyfer dull y Grŵp o wneud penderfyniadau.”

Datganiad polisi

Bob dydd byddwn ni fel Grŵp yn cael, yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth bersonol am ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a’n gweithwyr. Mae’n bwysig ein bod yn ymdrin â’r wybodaeth hon yn gyfreithlon ac yn briodol yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Rydym yn cymryd ein dyletswyddau diogelu data o ddifrif oherwydd ein bod yn parchu’r ffaith bod pobl yn ymddiried ynom i ddefnyddio gwybodaeth bersonol mewn modd priodol a chyfrifol.

Mae’r polisi hwn yn berthnasol i holl gwsmeriaid, rhanddeiliaid a gweithwyr Grŵp ateb Cyfyngedig, Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru.

Dyddiad cymeradwyo	Swyddog cyswllt arweiniol	Dyddiad adolygu
28.11.2019	Ceri Barnett	28.11.21

Cynnwys y polisi

1. Datganiad polisi
 2. Egwyddorion
 3. Cyfrifoldebau
 4. Rheolaeth
 5. Cysylltiadau â dogfennau eraill
-

2. Egwyddorion

Diben y polisi hwn ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt ynddo yw egluro sut y mae Grŵp ateb Cyfyngedig, Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn ymdrin â data personol ein cwsmeriaid, ein rhanddeiliaid a'n gweithwyr. Mae'r polisi yn egluro ar ba sail y byddwn yn casglu neu'n prosesu unrhyw ddata personol yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (a elwir gyda'i gilydd yn 'Ofynion o ran Diogelu Data').

Pan fyddwn yn sôn am **ddata personol**, rydym yn golygu data (boed yn ddata a gaiff ei storio'n electronig neu ar bapur) sy'n ymwneud ag unigolyn byw y mae modd ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o'r data hwnnw (neu o'r data hwnnw a gwybodaeth arall sydd yn ein meddiant).

Caiff rhai mathau o ddata personol eu galw'n **ddata personol sensitif**. Mae'r mathau hynny o ddata yn cynnwys data personol am hil neu darddiad ethnig unigolyn, ei safbwyntiau gwleidyddol, ei gredoau crefyddol neu athronyddol, a yw'n aelod o undeb llafur, cyflwr ei iechyd corfforol neu'i iechyd meddwl neu gyflwr ei iechyd o safbwynt genetig neu fiometrig, ei gyfeiriadedd rhywiol neu'i fywyd rhywiol. Gallant hefyd gynnwys data am droseddau neu euogfarnau. Dim ond dan amodau caeth y gellir prosesu data personol sensitif, sy'n cynnwys gyda chaniatâd yr unigolyn.

Pan fyddwn yn sôn am **brosesu**, rydym yn golygu unrhyw weithgarwch sy'n golygu defnyddio data personol. Mae prosesu'n cynnwys cael, cofnodi neu gadw'r data, ei drefnu, ei ddiwygio, ei adfer, ei ddefnyddio, ei ddatgelu, ei ddileu neu'i ddinistrio. Mae prosesu hefyd yn cynnwys trosglwyddo data personol i drydydd partion.

Fel Grŵp, pan fyddwn yn prosesu data personol, byddwn yn cydymffurfio â'r Egwyddorion Diogelu Data ac yn sicrhau:

1. Bod data'n cael ei brosesu yn deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw.

Ni fyddwn yn prosesu data personol oni bai bod ei angen at ddiben cyfreithlon. Mae'r dibenion cyfreithlon yn cynnwys sefyllfaoedd lle mae'r unigolyn wedi rhoi ei ganiatâd, lle mae angen prosesu'r data er mwyn cyflawni contract â'r unigolyn, lle

mae angen cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol, lle mae angen amddiffyn buddiannau hanfodol y sawl sy'n destun data neu lle mae angen mynd ar drywydd buddiannau dilys y busnes. Rhaid bodloni amodau ychwanegol pan fydd data personol sensitif yn cael ei brosesu.

Pan fyddwn, mewn amgylchiadau cyfyngedig, yn dibynnu ar gael caniatâd y sawl sy'n destun data, byddwn yn sicrhau bod caniatâd yn cael ei ddangos yn glir, naill ai drwy ddatganiad neu drwy gam gweithredu cadarnhaol megis rhoi tic mewn blwch. Rydym yn parchu hawl y sawl sy'n destun data i dynnu ei ganiatâd yn ôl unrhyw bryd a byddwn yn cofnodi unrhyw gais o'r fath ac yn cydymffurfio ag ef.

2. Bod data'n cael ei gasglu at ddibenion penodol, dilys a fynegwyd yn glir a bod unrhyw brosesu pellach yn digwydd am reswm sy'n gydnaws â hynny.

Nid atal data personol rhag cael ei brosesu yw diben y Gofynion o ran Diogelu Data, ond sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn deg a heb gael effaith andwyol ar hawliau'r sawl sy'n destun data. Os byddwn yn casglu data personol yn uniongyrchol oddi wrth unigolyn, byddwn yn ei hysbysu o'r canlynol (os yn berthnasol) trwy ein Hysbysiadau Preifatrwydd a'r polisi hwn:

- a) Y diben neu'r dibenion yr ydym yn bwriadu prosesu'r data personol hwnnw ar ei gyfer/ar eu cyfer, yn ogystal â'r sail gyfreithiol dros brosesu'r data;
- b) Y buddiannau dilys yr eir ar eu trywydd, os ydym yn dibynnu ar fuddiannau dilys y busnes i brosesu data personol;
- c) Y mathau o drydydd partïon, os oes rhai o gwbl, y byddwn yn rhannu'r data personol â nhw neu'n datgelu'r data personol iddynt;
- ch) Bod y Grŵp yn bwriadu trosglwyddo data personol i sefydliad rhyngwladol neu wlad nad yw'n rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, a'r mesurau diogelu priodol ac addas sydd ar waith;
- d) Sut y gall unigolyn gyfyngu ar ein defnydd o'i ddata personol a'r graddau y byddwn yn ei ddatgelu i eraill;
- dd) Gwybodaeth am y cyfnod y caiff ei wybodaeth ei storio, neu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod hwnnw;
- e) Ei hawl i ofyn i ni, fel y rheolydd data, am gael gweld ei ddata personol, ei hawl i ofyn i ni gywiro neu ddileu ei ddata personol, a'i hawl i ofyn i ni gyfyngu ar y prosesu a wneir;
- f) Ei hawl i wrthwynebu unrhyw brosesu a'i hawl i gludadwyedd data;
- ff) Ei hawl i dynnu ei ganiatâd yn ôl unrhyw bryd (os rhoddwyd caniatâd) heb effeithio ar gyfreithlondeb y prosesu a ddigwyddodd cyn i'r caniatâd gael ei dynnu'n ôl;
- g) Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth;
- ng) Y ffynonellau eraill y cafwyd data personol am yr unigolyn ohonynt, a ph'un a ddaeth y data o ffynonellau sydd ar gael i'r cyhoedd;
- h) P'un a yw darparu'r data personol yn ofyniad statudol, yn ofyniad dan contract neu'n ofyniad angenrheidiol ar gyfer ffurfio contract, yn ogystal ag a oes rheidrwydd ar yr unigolyn i ddarparu'r data personol, ac unrhyw ganlyniadau sy'n deillio o fethu â darparu'r data;
- i) Y ffaith bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn awtomataidd, gan gynnwys gwaith proffilio, a gwybodaeth ystyrion am y rhesymeg berthnasol, yn ogystal ag arwyddocâd prosesu o'r fath i'r unigolyn a'r canlyniadau a ragwelir.

Mae'r Hysbysiadau Preifatrwydd canlynol yn egluro sut y byddwn yn prosesu eich data:

- Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer **ymgeiswyr am swyddi**, sydd i'w weld ar ein porth ymgeisio am swyddi. Ewch i'r tudalennau 'Gweithio gyda ni' ar www.atebgroup.co.uk
- Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer **cwsmeriaid** ateb, sydd i'w weld ar wefan ateb www.atebgroup.co.uk
- Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer **partneriaid**, e.e. cyflenwyr, ymgynghorwyr a chontractwyr ac ati, sydd i'w weld ar wefan ateb www.atebgroup.co.uk
- Hysbysiad Preifatrwydd Mill Bay Homes, sydd i'w weld ar wefan Mill Bay Homes <https://www.millbayhomes.co.uk/privacy-policy/>
- Hysbysiad Preifatrwydd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, sydd i'w weld ar wefan Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru www.atebgroup.co.uk

Mae'n bosibl y bydd yr Hysbysiadau Preifatrwydd hyn yn cael eu diweddarw wrth i'n gwasanaethau wella.

3. Bod data'n ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer y dibenion a fwriadwyd.

Dim ond i'r graddau y mae ei angen ar gyfer y diben penodol y byddwn yn casglu data personol, a bydd y sawl sy'n destun data yn cael gwybod am y diben hwnnw. Byddwn yn sicrhau nad ydym yn casglu gormod o ddata ac ni fyddwn yn gwneud copïau diangen.

Pan nad oes angen y data mwyach, byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei ddileu, ei ddinistrio mewn modd diogel neu'i anonymeiddio yn unol â'n canllawiau ar gadw data, sydd i'w gweld yn atodiad 1 y polisi hwn.

4. Bod data'n gywir a'i fod yn cael ei ddiweddarw lle bo angen.

Byddwn yn sicrhau bod y data personol yr ydym yn ei gadw yn gywir ac yn cael ei ddiweddarw yn ôl yr angen. Byddwn yn gwirio bod unrhyw ddata personol yn gywir adeg ei gasglu ac yn rheolaidd wedi hynny. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddiwygio data anghywir neu ddata nad yw'n gyfredol.

Rydym yn parchu hawl ein cwsmeriaid/rhanddeiliaid/gweithwyr i wirio cywirdeb unrhyw ddata personol yr ydym yn ei gadw, a'u hawl i ofyn i ni ddiwygio'r data hwnnw.

5. Nad yw data'n cael ei gadw, mewn ffurf sy'n golygu bod modd adnabod unigolion wrtho, am gyfnod hwy nag sydd angen ar gyfer y dibenion a fwriadwyd.

Ni fyddwn yn cadw data personol am gyfnod hwy nag sydd angen ar gyfer y diben neu'r dibenion y cafodd ei gasglu ar ei gyfer/ar eu cyfer. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddinistrio neu ddileu o'n systemau yr holl ddata nad oes ei angen mwyach. Mae mwy o fanylion i'w gweld yn ein canllawiau ar gadw data, sydd yn atodiad 1.

6. Bod data'n cael ei brosesu yn unol â hawliau'r unigolyn ac mewn modd sy'n sicrhau bod camau priodol ar waith i gadw'r data personol yn ddiogel, sy'n cynnwys ei warchod rhag cael ei brosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag achosion o golli, dinistrio neu ddifrodi data'n ddamweiniol, gan ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadaethol priodol.

Byddwn yn prosesu unrhyw ddata personol yn unol â hawliau ein cwsmeriaid/rhanddeiliaid/gweithwyr, ac yn benodol yn unol â'u hawl i:

- a) Cael cadarnhad a yw data personol amdanynt yn cael ei brosesu neu beidio.
- b) Gofyn am gael gweld unrhyw ddata y mae rheolydd data yn ei gadw amdanynt.
- c) Gofyn am i'w data personol gael ei gywiro neu'i ddileu, neu ofyn am gyfyngu ar y prosesu a wneir.
- ch) Cyflwyno cwyn i awdurdod goruchwyllo.
- d) Cludadwyedd data.
- dd) Gwrthwynebu prosesu gan gynnwys at ddibenion marchnata uniongyrchol.
- e) Peidio â bod yn destun penderfyniadau awtomataidd, gan gynnwys gwaith proffilio, mewn amgylchiadau penodol.
- f) Sicrhau nad yw eu data'n cael ei drosglwyddo i bobl neu sefydliadau mewn gwledydd sydd heb fesurau diogelu digonol, heb fod yr unigolyn wedi cael gwybod am hynny ymlaen llaw.

Rhaid i gwsmer/rhanddeiliad/gweithiwr sy'n dymuno arfer unrhyw hawliau a restrir uchod neu sydd am wneud cais testun data am gael gweld gwybodaeth (cais i gael mynediad i ddata personol) gyflwyno cais ysgrifenedig ffurfiol i'r Swyddog Diogelu Data.

Byddwn yn rhoi mesurau diogelwch priodol ar waith i atal data personol rhag cael ei brosesu heb awdurdod neu'n anghyfreithlon, atal achosion o ddinistrio, difrodi, colli neu newid data personol yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon ac achosion o ddatgelu neu weld heb awdurdod ddata personol sy'n cael ei drosglwyddo, ei storio neu'i brosesu fel arall.

Byddwn yn rhoi polisiâu, prosesau a thechnolegau ar waith i gynnal diogelwch unrhyw ddata personol o'r adeg y penderfynir ar y dull o brosesu a'r adeg y cesglir y data i'r adeg y caiff ei ddinistrio. Ni chaiff data personol ei drosglwyddo i brosesydd data oni bai ei fod yn cytuno i gydymffurfio â'n polisiâu neu'n prosesau, neu'i fod wedi rhoi ei fesurau digonol ei hun ar waith.

Byddwn yn cadw data'n ddiogel trwy warchod cyfrinachedd, integriti ac argaeledd y data personol, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- a) Mae cyfrinachedd yn golygu mai dim ond y bobl sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio'r data sy'n gallu ei weld.
- b) Mae integriti'n golygu y dylai data personol fod yn gywir ac yn addas i'r diben y caiff ei brosesu ar ei gyfer.
- c) Mae argaeledd yn golygu y dylai fod modd i ddefnyddwyr awdurdodedig gael gweld y data os oes angen y data arnynt at ddibenion awdurdodedig. Dim ond ar systemau canolog y caiff data personol ei storio, ac nid ar ddyfeisiau personol.

Rydym yn rhoi'r mesurau diogelwch canlynol ar waith:

- a) Systemau rheoli mynediad. Dylid rhoi gwybod i'r Rheolwr cyntaf sydd ar gael am unrhyw ddiethryn a welir mewn ardaloedd y caiff mynediad iddynt ei reoli, nad yw'n gwisgo bathodyn ymwelwyr ateb, a bydd y Rheolwr hwnnw'n cymryd y camau angenrheidiol i gadarnhau pwy yw'r dieithryn.
- b) Defnyddio cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau electronig.
- c) Defnyddio cypyrddau a desgiau diogel y gellir eu cloi. Dylid cadw desgiau a chypyrddau ar glo os oes gwybodaeth gyfrinachol o unrhyw fath yn cael ei chadw ynddynt. (Caiff data personol ei ystyried yn wybodaeth gyfrinachol bob amser.)
- ch) Casglu cyn lleied o ddata ag sy'n bosibl. Casglu digon o ddata personol, a dim mwy na hynny, at y dibenion a nodwyd.
- d) Defnyddio ffugenwau ac amgryptio data lle bo'n bosibl. Defnyddio ffugenw yn lle unrhyw nodweddion data sy'n cynnig modd i adnabod unigolion, hynny yw defnyddio unrhyw werth sy'n golygu nad oes modd adnabod y sawl sy'n destun data yn uniongyrchol.
- dd) Sicrhau bod unrhyw ddata personol sy'n cael ei anfon i rywle y tu allan i'r Grŵp trwy dulliau electronig yn cael ei amgryptio gan fesurau diogelwch, e.e. bod angen cyfrinair i'w agor.
- e) Dulliau gwaredu. Dylai dogfennau papur gael eu rhoi trwy beiriant sy'n rhwygo papur yn ddarnau mân. Dylai dyfeisiau storio digidol gael eu dinistrio pan nad oes eu hangen mwyach.
- f) Offer. Rhaid i weithwyr sicrhau nad yw eu monitor yn dangos gwybodaeth gyfrinachol i'r sawl sy'n cerdded heibio, a sicrhau eu bod yn allgofnodi o'u cyfrifiadur personol neu fod arbedwr sgrin y mae angen cyfrinair i'w agor yn ymddangos cyn gynted ag y byddant yn gadael eu cyfrifiadur personol. Rhaid i bob ffôn, iPad a llechen a roddir i staff gan y Grŵp gael eu hamgryptio/eu diogelu gan gyfrinair, yn dibynnu ar y ddyfais. Rhaid i weithwyr sy'n defnyddio eu dyfeisiau eu hunain at ddibenion gwaith sicrhau eu bod yn defnyddio system wirio dau gam ar gyfer negeseuon ebost, ac ni ddylent gadw data personol cwsmeriaid ar eu systemau.
- ff) Nid yw data'n cael ei drosglwyddo i bobl neu sefydliadau mewn gwledydd sydd heb fesurau diogelu digonol, heb roi gwybod i'r unigolyn am hynny'n gyntaf.

Nid ydym yn trosglwyddo data i fannau sydd y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

Marchnata uniongyrchol

Rydym yn cael caniatâd ymlaen llaw gan y sawl sy'n destun data cyn anfon deunydd marchnata uniongyrchol atynt yn electronig (er enghraifft trwy ebost, neges destun neu alwadau awtomataidd). Yr eithriad prin i hynny yn achos y sawl sydd eisoes yn gwsmeriaid i ni yw'r hyn a elwir yn 'optio i mewn meddal'. Mae hynny'n caniatáu i ni anfon negeseuon testun neu ebost marchnata at y cwsmeriaid os cafodd eu manylion cyswllt eu casglu wrth i ni ddarparu gwasanaeth iddynt, os ydym yn marchnata cynnyrch neu wasanaethau tebyg, ac os oeddem wedi rhoi cyfle i'n cwsmeriaid optio allan wrth gasglu eu manylion yn wreiddiol ac y byddwn yn rhoi'r cyfle hwnnw iddynt ym mhob neges wedi hynny.

Rydym yn nodi'n glir i'n cwsmeriaid eu hawl i wrthwynebu cael negeseuon marchnata uniongyrchol, a chaiff unrhyw wrthwynebiad ei gofnodi a'i barchu.

3. Cyfrifoldebau

Y Grŵp

Polisi Grŵp yw hwn, sy'n berthnasol i'r holl gwmnïau sy'n rhan o strwythur y Grŵp.

Mae'r holl gwmnïau yn y Grŵp yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi ar gael i'w cwsmeriaid, eu rhanddeiliaid a'u gweithwyr ac am sicrhau bod hyfforddiant, cymorth ac arweiniad priodol yn cael eu rhoi yng nghyswllt defnyddio'r polisi a'i roi ar waith.

Y Bwrdd Rheoli

Bwrdd Rheoli ateb, fel rhiant-gwmni'r Grŵp, sy'n gyfrifol am gymeradwyo'r defnydd a wneir o'r polisi hwn.

Mae byrddau'r holl is-gwmnïau'n gyfrifol am sicrhau bod eu cwmnïau perthnasol yn defnyddio'r polisi hwn.

Pobl allweddol

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am oruchwylio'r polisi diogelu data hwn ac am sicrhau ei fod yn bodloni gofynion rheoleiddiol.

Mae'r Swyddog Diogelu Data yn gyfrifol am sicrhau bod digon o gyfleoedd ar gael o ran dysgu, datblygu, arweiniad a chymorth i weithredu'r polisi hwn. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod hyfforddiant ar gael i staff newydd a bod hyfforddiant diweddarau ar gael yn flynyddol i weithwyr.

Dylai unrhyw gwestiynau am y modd y caiff y polisi hwn ei weithredu neu am y Gofynion o ran Diogelu Data gael eu cyfeirio at y Swyddog Diogelu Data.

Manylion y Swyddog Diogelu Data:

Ceri Barnett
Grŵp Ateb Cyf.
Tŷ Meyler
St Thomas Green
Hwlfordd
SA61 1QP

Pob Rheolwr

Mae pob Rheolwr yn gyfrifol am sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei weithredu'n effeithiol yn eu tîm. Mae hynny'n cynnwys y dyletswyddau canlynol:

1. Sicrhau bod aelodau eu tîm yn deall eu cyfrifoldebau dan y polisi.
2. Sicrhau bod aelodau eu tîm yn mynychu cyfleoedd o ran hyfforddiant, sy'n cynnwys hyfforddiant i staff newydd a hyfforddiant diweddarau. Os oes angen hyfforddiant ychwanegol ar unrhyw aelodau o'r tîm, dylai rheolwyr roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data.
3. Cadw cofnodion o'r data a gaiff ei brosesu gan eu maes gwasanaeth, a sicrhau bod y cofnodion hynny'n gywir ac yn gyfredol (mapiau data). Mae mapiau data yn ddogfennau deinamig a dylent gael eu diweddarau wrth i weithgareddau prosesu newid. Dylai timau eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn.
4. Cadw cofnodion ynghylch caniatâd cwsmeriaid ac achosion o dynnu caniatâd yn ôl, a rhannu'r wybodaeth honno â'r tîm Llywodraethu i'w chynnwys mewn cofnod canolog.

5. Sicrhau bod y prosesau y maent yn gyfrifol amdanynt yn cydymffurfio â'r Gofynion o ran Diogelu Data a'r egwyddorion a restrir uchod, a'u bod yn gwarchod y gwaith o brosesu data personol.
6. Rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Swyddog Diogelu Data a'r tîm Llywodraethu am unrhyw geisiadau testun data am gael gweld gwybodaeth, neu unrhyw geisiadau gan drydydd parti, ac am unrhyw achosion o fethu â diogelu data personol yn briodol.
7. Rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data am unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer Cwsmeriaid, os bydd newid yn eu maes gwasanaeth yn arwain at newid yn y modd y maent yn prosesu data personol cwsmeriaid.
8. Cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data cyn dechrau ar brosiect, os yw eu gwaith yn cynnwys cyflwyno rhaglenni o newidiadau mawr i systemau neu'r busnes, sy'n golygu prosesu data personol, gan gynnwys:
 - a) Defnyddio technolegau newydd neu wahanol (rhaglenni, systemau neu brosesau);
 - b) Prosesu awtomataidd, gan gynnwys gwaith proffilio;
 - c) Prosesu data sensitif ar raddfa fawr;
 - ch) Monitro yn systematig ac ar raddfa fawr ardal sy'n agored i'r cyhoedd (teledu cylch cyfyng).
9. Rhoi Protocolau Rhannu Gwybodaeth digonol ar waith gyda phartneriaid megis cyrff statudol wrth gydweithio, os yw rhannu gwybodaeth â phartneriaid yn ofynnol yn ôl y gyfraith (Cytundebau WASPI).
10. Sicrhau bod partneriaid neu gontractwyr/ymgynghorwyr sy'n cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaeth naill ai'n cydymffurfio â'n Polisi Diogelu Data ni neu fod ganddynt eu Polisi Diogelu Data eu hunain sy'n bodloni'r Gofynion o ran Diogelu Data. Dylai pob contract gynnwys cymalau ynghylch Diogelu Data.

Dylai rheolwyr geisio cyngor y Swyddog Diogelu Data os ydynt yn ansicr ynghylch sut y mae eu maes gwasanaeth yn bodloni'r Egwyddorion Diogelu Data a restrir yn adran 2 y polisi hwn, gan gynnwys yng nghyswllt marchnata uniongyrchol, neu os oes angen unrhyw gyngor arnynt ynghylch eu cyfrifoldebau dan y polisi hwn.

Pob gweithiwr

Mae pob gweithiwr yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn deall y polisi hwn, ac yn gyfrifol am gydymffurfio ag ef wrth brosesu data personol cwsmer ac ymgymryd â gweithgareddau marchnata.

Mae cyfrifoldebau gweithwyr dan y polisi hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Mynychu'r hyfforddiant Diogelu Data a gynigir iddynt a rhoi gwybod i'w rheolwyr os nad ydynt wedi cael cynnig hyfforddiant o'r fath;
2. Rhoi gwybod cyn gynted ag sy'n bosibl i'r Swyddog Diogelu Data a'r tîm Llywodraethu am bob achos o fethu â diogelu data'n briodol, cyn gynted ag y byddant yn dod yn ymwybodol o achos posibl o'r fath, er mwyn iddynt gael cymorth i ymdrin â'r achos hwnnw. Mae dyletswydd ar y Swyddog Diogelu Data i roi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achosion y mae'n rhaid adrodd yn eu cylch o fethu â diogelu data'n briodol, cyn pen 72 awr, felly mae angen i'r Swyddog Diogelu Data fod yn ymwybodol o unrhyw achosion o'r fath.
3. Rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data neu'r tîm Llywodraethu am unrhyw geisiadau gan gwsmeriaid i gael gweld eu data (cais testun data am gael gweld gwybodaeth) er mwyn i'r ceisiadau hynny gael eu cofnodi a chael sylw cyn pen

- cyfnod rhesymol (dim mwy na mis).
4. Cofnodi unrhyw gais gan gwsmeriaid i arfer unrhyw un o'u hawliau a restrir yn adran 2 y polisi hwn, a rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data neu'r tîm Llywodraethu.
 5. Rhoi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data neu'r tîm Llywodraethu am unrhyw geisiadau gan drydydd parti am ddata, er mwyn cael cyngor ynghylch a oes modd datgelu'r wybodaeth honno.
 6. Ymatal rhag gweld, datgelu neu brosesu unrhyw ddata personol ar wahân i'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn gallu cyflawni eu dyletswyddau fel gweithwyr.
 7. Cael caniatâd cyn tynnu lluniau o gwsmeriaid/gweithwyr neu randdeiliaid a defnyddio'r lluniau hynny.

Rhanddeiliaid

Mae'n ofynnol i bob partner, contractwr ac ymgynghorwr sy'n ymwneud â'r Grŵp gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data hwn wrth brosesu data cwsmeriaid y Grŵp, neu mae'n ofynnol iddynt ddangos i'r Grŵp sut y mae eu polisiau eu hunain yn bodloni'r Gofynion o ran Diogelu Data.

Cwsmeriaid

Mae cwsmeriaid yn gyfrifol am roi gwybod i'r Swyddog Diogelu Data os oes ganddynt unrhyw bryderon am y modd y mae'r Grŵp yn defnyddio eu data. Os nad yw cwsmeriaid yn fodlon â'r ymateb a gawsant gan y Swyddog Diogelu Data, mae ganddynt yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd CF10 2HH

Rhaid i gwsmeriaid roi gwybod i'r Grŵp os bydd eu manylion cyswllt yn newid, er mwyn i ni allu cadw eu manylion yn gywir.

Wrth wneud cais i gael gweld data personol (cais testun data am gael gweld gwybodaeth) neu wrth arfer unrhyw rai o'r hawliau a amlinellir yn rhan 2 y polisi hwn, rhaid i gwsmeriaid gyflwyno eu cais yn ysgrifenedig i sylw'r Swyddog Diogelu Data. Byddwn yn ceisio cofnodi pob cais a chymryd camau i fynd i'r afael ag ef cyn pen 30 diwrnod ar ôl i ni ei gael. Byddwn yn gofyn i gwsmeriaid ddangos dogfennau adnabod cyn rhoi unrhyw ddata personol iddynt.

4. Rheolaeth

Y Swyddog Diogelu Data yw'r swyddog cyswllt arweiniol ar gyfer y polisi hwn ac ar gyfer sicrhau bod y polisi'n parhau yn effeithiol o safbwynt gweithredol. Bydd y Swyddog Diogelu Data yn adolygu'r polisi hwn o leiaf bob 2 flynedd.

Mae'r polisi hwn yn ddogfen ddeinamig a bydd yn cael ei ddiwygio yn ôl y gofyn yn dilyn adolygiadau gwasanaeth neu newidiadau i'r amgylchedd gweithredu.

Bydd yn rhaid cael cymeradwyaeth y Bwrdd cyn cyhoeddi unrhyw newidiadau i'r polisi a bydd gweithwyr yn cael hyfforddiant diweddarau fel y bo'n briodol.

5. Cysylltiadau â dogfennau eraill

Mewnol

- Hysbysiadau Preifatrwydd ar gyfer Cwsmeriaid, Gweithwyr, Ymgeiswyr am Swyddi a Phartneriaid, sydd i'w gweld ar ein gwefan. www.atebgroup.co.uk neu www.millbayhomes.co.uk/privacy-policy/
- Rhestr Prosesu Data www.atebgroup.co.uk
- Y wefan a'r defnydd o gwcis www.atebgroup.co.uk neu www.millbayhomes.co.uk/privacy-policy/
- Polisi Teledu Cylch Cyfyng
- Mesurau Diogelwch TG – Gweithdrefn defnyddio cyfrifiaduron (yn cael ei hadolygu)
- Mae canllawiau ynghylch dod â'ch dyfais eich hun, achosion o fethu â diogelu data'n briodol, ceisiadau testun data am gael gweld gwybodaeth a cheisiadau gan drydydd partïon i'w gweld ar yammer, neu gellir gofyn i'r tîm Llywodraethu am gopi ohonynt.

Allanol

- Deddf Diogelu Data 2018/Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018
- Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

PN01

SA/16

Cymorth ychwanegol

Cysylltwch â'n tîm
cwsmeriaid gan ddyfynnu
cyfeirnod y polisi:

Ffôn:	01437 763688
Ebost:	mydata@atebgroup.co.uk
Facebook	@atebgroup
Wyneb yn wyneb:	Tŷ Meyler, Hwlfordd, SA61 1QP

Hanes fersiynau

Fer.	Dyddiad	Newidiadau
1	28.11.2019	Y Bwrdd yn cymeradwyo'r polisi
2		
3		

RHESTR CADW DATA

Trosolwg o'r dogfennau			Rhestr Cadw Data					
Cyfeirnod	Swyddogaeth	Math o gofnod	Dechrau'r cyfnod cadw	Cyfnod cadw gofynnol statudol	Cyfnod cadw a argymhellir	Cam gweithredu ar ddiwedd y cyfnod cadw	Ffynhonnell y cyfarwyddyd ynghylch cadw	Rheswm dros gadw
1. Llywodraethu								
1.1	Llywodraethu	Cynlluniau, polisiâu, dogfennau parhad busnes, dogfennau rheoli risg a strategaethau corfforaethol sy'n berthnasol i'r sefydliad cyfan	Pan gaiff dogfen ei disodli gan un newydd	Amherthnasol	1 flwyddyn wedi i'r ddogfen gael ei disodli (yn hwy os oes angen am resymau hanesyddol)	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
1.2	Llywodraethu	Dogfennau llywodraethu		Amherthnasol	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel		Eu hangen ar gyfer statws elusennol
1.3	Llywodraethu	Cyfansoddiad, nodau ac amcanion		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel		Eu hangen ar gyfer statws elusennol
1.4	Llywodraethu	Cofnod o gadarnhau statws elusennol gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Diwedd y flwyddyn ariannol	O leiaf 1 flwyddyn i ddiwedd y flwyddyn ariannol – bydd ei angen ar gyfer y Datganiad Blynyddol o leiaf	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Y Sefydliad Siartredig Llywodraethu	Datganiad blynyddol ac arfer gorau.
1.5	Llywodraethu	Cofnod o gofrestru'n elusen		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Y Sefydliad Siartredig Llywodraethu	Arfer gorau
1.6	Llywodraethu	Tystysgrif corffori		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 15	Cydymffurfio â'r gyfraith
1.7	Llywodraethu	Memorandwm Cymdeithasu		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 32	Cydymffurfio â'r gyfraith
1.8	Llywodraethu	Erthyglau cymdeithasu/ Rheolau enghreifftiol		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 32	Cydymffurfio â'r gyfraith
1.9	Llywodraethu	Tystysgrif cofrestru gyda'r rheoleiddiwr tai		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Y Sefydliad Siartredig Llywodraethu	Arfer gorau
1.10	Llywodraethu	Cofnod cofrestru a thystysgrif corffori ar gyfer newid enw		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 80	Cydymffurfio â'r gyfraith
1.11	Llywodraethu	Dogfennau cofrestru (Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol)		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 adran 3	Cydymffurfio â'r gyfraith
1.12	Llywodraethu	Gohebiaeth â'r Archwilwyr Mewnol, cylch gorchwyl, cofnodion cyfarfodydd, papurau ac adroddiadau cysylltiedig	Ar ôl archwiliad	Amherthnasol	5 mlynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
1.13	Llywodraethu	Dogfennau aelodau'r Bwrdd – llythyrau penodi, cytundebau lefel gwasanaeth, manylion banc ac ati	Pan ddaw aelodaeth yr unigolyn o'r Bwrdd i ben	6 blynedd wedi i'r unigolyn beidio â bod yn aelod o'r Bwrdd, er y dylai rhai manylion gael eu dinistrio pan ddaw'r aelodaeth i ben e.e. manylion banc ac ati	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Mae erthygl 5(1) (e) y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn mynnu nad yw data personol yn cael ei gadw ar ffurf sy'n golygu bod modd adnabod testun y data, am yn hwy nag sy'n angenrheidiol Argymhelliad Deddf Cwmnïau 2006 ynghylch dogfennau wedi i gyfarwyddwr beidio â bod yn gyfarwyddwr	Cydymffurfio â'r gyfraith
2. Llywodraethu data								
2.1	Llywodraethu data	Negeseuon ebost	Dyddiad nad yw'n weithredol mwyach	Derbyn yr ebost	Cael eu harchifo ar ôl 6 mis a'u dinistrio ar ôl 2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Ofcom Mae canllawiau'r archif genedlaethol yn amrywio o 90 diwrnod i bedair blynedd.	Arfer gorau
2.2	Llywodraethu data	Lluniau teledu cylch cyfyng	Dyddiad recordio	Y cyfnod lleiaf sy'n angenrheidiol	30 diwrnod	Dinistrio'n ddiogel	Y Ddeddf Diogelu Data	Arfer gorau
2.3	Llywodraethu data	Recordiadau o alwadau	Dyddiad recordio	Y cyfnod lleiaf sy'n angenrheidiol	6 mis	Dinistrio'n ddiogel	Llawlyfr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, cyflawni busnes 11.8	Arfer gorau
2.4	Llywodraethu data	Ceisiadau gan destun data am gael gweld gwybodaeth	Dyddiad anfon	6 mis	1 flwyddyn	Dinistrio'n ddiogel	Y Comisiynydd Gwybodaeth	Arfer gorau

Trosolwg o'r dogfennau			Rhestr Cadw Data					
Cyfeirnod	Swyddogaeth	Math o gofnod	Dechrau'r cyfnod cadw	Cyfnod cadw gofynnol statudol	Cyfnod cadw a argymhellir	Cam gweithredu ar ddiwedd y cyfnod cadw	Ffynhonnell y cyfarwyddyd ynghylch cadw	Rheswm dros gadw
2.5	Llywodraethu data	Ffilmiau / Fideos	Dyddiad recordio	Y cyfnod lleiaf sy'n angenrheidiol	3 blynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
2.6	Llywodraethu data	Cofnodion ynghylch achosion o fethu â diogelu data'n briodol	Dyddiad recordio	Amherthnasol	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
2.7	Llywodraethu data	Cofnodion ynghylch twyll	Dyddiad recordio	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Llawlyfr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol	Arfer gorau
2.8	Llywodraethu data	Ceisiadau gan destun data am gael gweld gwybodaeth	Dyddiad anfon	6 mis	1 flwyddyn	Dinistrio'n ddiogel	Y Comisiynydd Gwybodaeth	Arfer gorau
3. Cyfarfodydd								
3.1	Cyfarfodydd	Hysbysiadau ynghylch cyfarfodydd		Amherthnasol	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel		Rhag ofn y bydd rhywun yn herio dilysrwydd cyfarfod neu benderfyniadau
3.2	Cyfarfodydd	Agendâu, papurau, cofnodion a phenderfyniadau cyfarfodydd gweithredol		Amherthnasol	10 mlynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
3.3	Cyfarfodydd	Cofnodion a phenderfyniadau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor	Dyddiad y cyfarfod	10 mlynedd o ddyddiad cyfarfod cwmni sy'n dal i fodoli neu tra bydd y cwmni'n bodoli	10 mlynedd o ddyddiad cyfarfod cwmni sy'n dal i fodoli neu tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 248 a 249	Cydymffurfio â'r gyfraith

Trosolwg o'r dogfennau			Rhestr Cadw Data					
Cyfeirnod	Swyddogaeth	Math o gofnod	Dechrau'r cyfnod cadw	Cyfnod cadw gofynnol statudol	Cyfnod cadw a argymhellir	Cam gweithredu ar ddiwedd y cyfnod cadw	Ffynhonnell y cyfarwyddyd ynghylch cadw	Rheswm dros gadw
3.4	Cyfarfodydd	Agendâu a phapurau cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor	Dyddiad y cyfarfod	10 mlynedd o ddyddiad cyfarfod cwmni sy'n dal i fodoli neu tra bydd y cwmni'n bodoli	10 mlynedd o ddyddiad cyfarfod cwmni sy'n dal i fodoli neu tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 248 a 250	Arfer gorau (os oes eu hangen i ategu cofnodion a phenderfyniadau)
3.5	Cyfarfodydd	Cofnodion a phenderfyniadau cyfarfodydd cyfranddalwyr	Dyddiad y cyfarfod	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 356	Cydymffurfio â'r gyfraith
3.6	Cyfarfodydd	Agendâu a phapurau cyfarfodydd cyfranddalwyr	Dyddiad y cyfarfod	Amherthnasol	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau (os oes eu hangen i ategu cofnodion a phenderfyniadau)
3.7	Cyfarfodydd	Cofnodion a phenderfyniadau ymddiriedolwyr (elusennau)	Dyddiad y cyfarfod	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Gofyniad CC48 y Comisiwn Elusennau	Cydymffurfio â'r gyfraith
4. Rheoliadau a datganiadau statudol								
4.1	Rheoliadau a datganiadau statudol	Datganiadau ariannol wedi'u harchwilio	Dyddiad cyflwyno	O leiaf 3 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 388 ac argymhellion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol a'r Archif Genedlaethol ynghylch arfer gorau	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
4.2	Rheoliadau a datganiadau statudol	Cofrestr defnyddio sêl y cwmni		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 1985	Cydymffurfio â'r gyfraith
4.3	Rheoliadau a datganiadau statudol	Datganiadau Statudol Blyneddol i'r Rheoleiddiwr	Dyddiad cyflwyno	O leiaf 1 flwyddyn ar ôl eu cyflwyno	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 adran 90	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
4.4	Rheoliadau a datganiadau statudol	Cofrestr cyfarwyddwyr ac ysgrifenyddion		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 162	Cydymffurfio â'r gyfraith
4.5	Rheoliadau a datganiadau statudol	Cofrestr o aelodau sy'n gyfranddalwyr		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 113	Cydymffurfio â'r gyfraith
4.6	Rheoliadau a datganiadau statudol	Cofrestr tystysgrifau cyfrannau		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 1984 adran 325	Cydymffurfio â'r gyfraith
4.7	Rheoliadau a datganiadau statudol	Datganiadau o fuddiant		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cwmnïau 2006 adran 177 (ymhlyg)	Cydymffurfio â'r gyfraith
4.8	Rheoliadau a datganiadau statudol	Rhestr o aelodau (Cwmni Cydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol)		Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Cofrestrydd Cymdeithasau Cyfeillgar	Ei hangen ar gyfer y Cofrestrydd Cymdeithasau Cyfeillgar
4.9	Rheoliadau a datganiadau statudol	Tystysgrifau cofrestru cartref nyrsio a chartrefi gofal preswyl	Dyddiad gorffen rheoli	Amherthnasol	7 mlynedd ar ôl gorffen rheoli'r cartref	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau'r Comisiwn Ansawdd Gofal	Arfer gorau
4.10	Rheoliadau a datganiadau statudol	Adroddiadau arolygu cartref nyrsio a chartrefi gofal preswyl	Dyddiad gorffen rheoli	7 mlynedd ar ôl gorffen rheoli'r cartref	7 mlynedd ar ôl gorffen rheoli'r cartref	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau'r Comisiwn Ansawdd Gofal a Deddf Cyfyngiadau 1980	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
5. Rheolaeth strategol								
5.1	Strategol	Cynlluniau busnes a dogfennau ategol	Diwedd cyfnod y Cynllun Busnes	Amherthnasol	5 mlynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau

Trosolwg o'r dogfennau			Rhestr Cadw Data					
Cyfeirnod	Swyddogaeth	Math o gofnod	Dechrau'r cyfnod cadw	Cyfnod cadw gofynnol statudol	Cyfnod cadw a argymhellir	Cam gweithredu ar ddiwedd y cyfnod cadw	Ffynhonnell y cyfarwyddyd ynghylch cadw	Rheswm dros gadw
6. Yswiriant								
6.1	Yswiriant	Polisiau cyfredol/blaenorol: - yswiriant rhag trosedd - archwiliadau peirianyddol - yswiriant cerbydau modur - difrod i eiddo - colli rhent masnachol - cynnwys tŷ - cynnwys swyddfa - yswiriant ar gyfer gwaith sydd ar y gweill - yswiriant tarfu ar fusnes - yswiriant pob risg - yswiriant ar gyfer gwaith peirianyddol - yswiriant damweiniau personol i staff - indemniti proffesiynol - yswiriant rhag trosedd/cywirdeb	Dyddiad y mae'r polisi'n dod i ben	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Adolygu	Mae cyfyngu ar atebolrwydd yn gallu dechrau o'r adeg y deuir i wybod am hawliad posibl ac nid o angenrheidrwydd o'r adeg y deuir i wybod am achos yr hawliad. D.S. Rhaid i Fyrddau Cymdeithasau Tai ailgadarnhau'n ffurfiol yn flynyddol eu bwriad i barhau â'r Polisi Atebolrwydd Aelodau Bwrdd Gwirfoddol (a gaiff ei ddarparu'n awtomatig wrth ymaelodi â'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol). Mae'r Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol yn argymhell 3 blynedd wedi i'r polisi ddod i ben.	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
6.2	Yswiriant	Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr	Dyddiad y mae'r polisi'n dod i ben	Amherthnasol	40 mlynedd	Ei chynnig i'r archifau	Roedd rheoliadau 2008 yn dileu'r gofyniad i gadw'r dogfennau hyn am 40 mlynedd ond mae angen bod yn ymwybodol o hawliadau ynghylch afiechydon diwydiannol ac ati sy'n gallu dod i'r amlwg flynyddoedd yn ddiweddarach.	Arfer gorau
6.3	Yswiriant	Atodlen yswiriant blynyddol	Diwedd y flwyddyn	Amherthnasol	Tra bydd y cwmni'n bodoli	Dinistrio'n ddiogel	Gan fod polisiau cyfredol a blaenorol yn cael eu cadw'n barhaol (uchod), dylid cadw'r atodlenni hefyd. Arfer gorau	Arfer gorau
6.4	Yswiriant	Hawliadau a gohebiaeth gysylltiedig	Diwedd y setliad	Amherthnasol	2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Argymhelliad Zurich Municipal. Mae'r Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol yn argymhell 3 blynedd ar ôl y setliad.	Arfer gorau
6.5	Yswiriant	Indemniadau a gwarantau	Dyddiad y mae'r polisi'n dod i ben	Amherthnasol	6 blynedd wedi i'r polisi ddod i ben	Dinistrio'n ddiogel	Deddf Cyfyngiadau 1980, Cyfyngu ar gyfer achosion cyfreithiol. 12 mlynedd os yw'n gysylltiedig â thir.	Cydymffurfio â'r gyfraith
6.6	Yswiriant	Polisiau iechyd y Grŵp	Dyddiad y mae'r buddion yn dod i ben	Amherthnasol	12 mlynedd wedi i'r buddion ddarfod	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
7. Cyllid								
7.1	Cyllid	Cofnodion cyfrifyddu ar gyfer Cwmni Cyfyngedig		6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Mae adran 388 y Ddeddf Cwmnïau yn argymhell 3 blynedd. Dan Ddeddf Rheoli Trethi 1970 adran 20, gallai fod angen unrhyw ddogfennau'n ymwneud â threth sy'n dyddio'n ôl 6 blynedd (a mwy).	Cydymffurfio â'r gyfraith
7.2	Cyllid	Cofnodion cyfrifyddu ar gyfer Cwmni Cydweithredol a Chymdeithas Budd Cymunedol neu elusen		Amherthnasol	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel		Arfer gorau
7.3	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Llyfrau/taflenni arian parod	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau

7.4	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Taflenni/llyfrau/cofnodion arian mân Cyfrif post/cwmni cludo/cofnodion arian parod Cofrestr o wariant ar bostio Cofnod o'r hyn a dalwyd am bostio Taflenni/llyfrau postio	Diwedd y flwyddyn ariannol	2 flynedd	2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.5	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Cofnodion hanes credydwyd	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.6	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Datganiadau cyfrifon archebion heb eu cwblhau	Diwedd y flwyddyn ariannol	2 flynedd	2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.7	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Talebau – hawliadau am daliadau, archebion prynu, archebion am nwyddau a gwasanaethau, cyfrifon taladwy, anfonebau ac yn y blaen	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.8	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Cyflogau/slipiau cyflog	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau

Trosolwg o'r dogfennau			Rhestr Cadw Data					
Cyfeirnod	Swyddogaeth	Math o gofnod	Dechrau'r cyfnod cadw	Cyfnod cadw gofynnol statudol	Cyfnod cadw a argymhellir	Cam gweithredu ar ddiwedd y cyfnod cadw	Ffynhonnell y cyfarwyddyd ynghylch cadw	Rheswm dros gadw
7.9	Cyllid – Sieciau a chofnodion cysylltiedig	Cyfriflyfr cyffredinol a chyfriflyfrau atodol at ddiben paratoi datganiadau ariannol ardystiedig neu wybodaeth a gaiff ei chyhoeddi	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.10	Cyllid – Cofnodion gwariant	Tafleuni / llyfrau arian parod	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.11	Cyllid – Cofnodion gwariant	Cyfriflyfrau eraill (megis contractau, costau, pryniannau)	Diwedd y flwyddyn ariannol	2 flynedd	2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.12	Cyllid – Cofnodion gwariant	Dyddlyfrau – prif gofnodion ar gyfer codi taliadau	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.13	Cyllid – Cofnodion gwariant	Dyddlyfrau – addasiadau arferol	Diwedd y flwyddyn ariannol	2 flynedd	2 flynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
7.14	Cyllid – Cofnodion gwariant	Balansau prawf – balansau diwedd blwyddyn, cysoniadau ac amrywiadau i ategu'r balansau yn y cyfriflyfrau a'r cyfrifon a gyhoeddir	Diwedd y flwyddyn ariannol	6 blynedd	6 blynedd	Dinistrio'n ddiogel	Canllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi, cyngor y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Cydymffurfio â'r gyfraith ac arfer gorau
